**GWEITHDREFNAU ARIANNOL**

**Adran 5 – Polisi Gwrthdaro Buddiannau**

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | Tachwedd 2021 |
| **Perchennog y Polisi:** | Rheolaeth Cyllid |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf:** | Tachwedd 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Rhagfyr 2022 |

**Adran 5: Gwrthdaro Buddiannau**

## 5. Adran 5: Polisi Gwrthdaro Buddiannau

### 5.1. Rhagarweiniad

5.1.1. Mae Prifysgol Aberystwyth yn ystyried fod y cysylltiadau a sefydlwyd rhwng aelodau'r Cyngor a'i bwyllgorau, Grŵp Gweithredol y Brifysgol, aelodau uwch staff y Brifysgol, a chyrff allanol o ddiddordeb i'r cyhoedd ac o fudd i'r Brifysgol o ran cyflawni ei amcanion. Er hyn, mae'n bosibl fod y fath gysylltiadau mewn rhai amgylchiadau yn gallu arwain at wrthdaro buddiannau. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau'r Cyngor, i aelodau pwyllgorau, a'r holl staff i osgoi gwrthdaro buddiannau ariannol, moesegol, cyfreithiol neu eraill. Rhaid datgan pob gwrthdaro gwirioneddol, canfyddadwy neu ymddangosiadol a phosibl.

5.1.2. Mae unrhyw weithgaredd neu weithred yn cael ei ystyried fel gwrthdaro buddiannau pan fydd gan aelod o'r Cyngor, aelod o bwyllgor neu aelod o staff fuddiant, neu y bo'n ysgwyddo rhwymedigaeth mewn gweithgarwch busnes, sefydliad, gweithrediad masnachol, unigolyn neu weithgarwch proffesiynol a allai ymyrryd yn ormodol â chyflawniad priodol eu dyletswyddau fel aelod o'r Cyngor, aelod o bwyllgor neu aelod o staff yn y Brifysgol. Mae gwrthdaro buddiannau yn bodoli pan mae aelod o'r Cyngor, aelod o'r pwyllgor neu aelod o staff yn elwa'n bersonol, neu mewn modd a all ymddangos fel eu bod yn elwa'n bersonol ar weithgarwch, gweithrediad masnachol neu gyfarfyddiad gydag unigolyn neu fusnes. Mae gan aelod wrthdrawiad buddiannau canfyddadwy neu wirioneddol os oes canfyddiad rhesymol, y gallai rhywun rhesymol wybodus ei gael yn iawn, bod cywirdeb neu allu aelod o'r Cyngor, aelod o'r pwyllgor neu aelod o staff i arfer pŵer swyddogol, neu gyflawni dyletswydd neu swyddogaeth swyddogol yn debygol o fod wedi cael ei effeithio gan ei fudd neu ei budd personol. Gall canfyddiadau o wrthdaro nid yn unig godi mewn perthynas â buddiannau neu rwymedigaethau aelodau'r Cyngor, aelodau pwyllgor neu aelodau staff mewn busnesau, sefydliadau, gweithredu masnachol ac unigolion sy'n gwneud busnes gyda'r Brifysgol. Gallant hefyd godi pan fydd yr aelod yn brynwr gwasanaethau o'r Brifysgol.

### 5.2. Cais

5.2.1. Mae'r polisi hwn yn gymwys ar gyfer pob aelod o'r Cyngor, pob aelod o bwyllgor a phawb o'r staff. Dylai'r polisi hwn gael ei ddarllen mewn cysylltiad â:

- Rheoli Perthnasau a Gwrthdaro Buddiannau yn y Gweithle
https://www.aber.ac.uk/en/hr/policy-and-procedure/managingofconflict/
- Cofrestr Buddiannau
https://www.aber.ac.uk/en/corporate-information/governance/council/#register-of-interests

### 5.3. Gofynion Staff

5.3.1. Mae'n ofynnol i bob aelod o staff y Brifysgol ddatgelu unrhyw wrthdrawiadau buddiannol ymddangosiadol neu amlwg. Bydd unrhyw aelod o staff nad yw'n cwblhau'r datganiad buddion yn cael ei ystyried ei fod wedi gwneud 'DIM Adennill'. Mae'n gyfrifoldeb ar bob aelod o staff i sicrhau bod eu datganiad Gwrthdrawiad Buddiannau yn gyfredol. Mae'n arferol i'r Brifysgol atgoffa staff i adolygu eu datganiadau yn flynyddol.

### 5.4. Sgôp y polisi

5.4.1. Mae gan aelodau'r Cyngor, aelodau pwyllgorau a'r staff y mae'r polisi hwn yn berthnasol iddynt ddyletswydd i ymddwyn er lles y Brifysgol ac yn unol â Statudau, Ordinadau a Rheoliadau'r Brifysgol.

5.4.2. Mae gwrthdaro gwirioneddol, canfyddedig neu bosibl yn codi pan fydd buddiannau busnes, personol neu deuluol a / neu deyrngarwch unigolyn yn gwrthdaro â rhai'r Brifysgol. Gall y fath broblemau rwystro trafodaeth a dadl wrthrychol. Gallant hefyd arwain at wneud penderfyniadau

nad ydynt o'r rheidrwydd er budd y Brifysgol, gan roi'r argraff bod y Brifysgol wedi gweithredu'n amhriodol.

5.4.3. Amcan y polisi a'i ddogfennau cysylltiedig yw gwarchod y Brifysgol a'r aelodau / staff rhag bod yn gysylltiedig ag unrhyw ymddangosiad o amhriodoldeb.

### 5.5. Datganiad Buddion

5.5.1. Mae rheidrwydd ar bob aelod o'r Cyngor, aelodau o'i bwyllgorau a staff y Brifysgol i ddatgan ar y cyfle cynharaf unrhyw fuddion ariannol neu fuddion manteisiol eraill (gan gynnwys rhoddion sylweddol neu letygarwch - gweler isod) y gallant hwy neu aelod teuluol neu unrhyw sefydliad lle y maent yn dal swydd neu gyflogaeth yno, ei gael mewn unrhyw gytundeb dan ystyriaeth rhwng y Brifysgol a thrydydd person. Y sefyllfaoedd priodol ar gyfer gwneud y fath ddatganiad yw:

- pan fo gan y Cyngor, unrhyw un o'i bwyllgorau, neu unrhyw bwyllgor arall o fewn y Brifysgol fusnes sydd yn hanfodol berthnasol i'r buddion hynny; neu
- pan fo unigolyn yn ystod cyfarfod neu unrhyw weithgaredd yn gysylltiedig â'r Brifysgol yn dod yn ymwybodol fod ganddynt fuddion ariannol neu fanteision eraill yn y mater penodol sydd i'w drafod neu sydd eisoes wedi ei benderfynu.

5.5.2. Dylai pob unigolyn gymhwyso'r prawf 'rhesymoldeb' a amlinellwyd ym mharagraff 5.1.2 uchod yn eu penderfyniad pa un ai a fodola gwrthdaro posib neu ganfyddedig. Y ffordd briodol o nodi gwrthdaro buddiannau gwirioneddol, posibl neu ganfyddedig yw hysbysu'r Cadeirydd neu Glerc y Pwyllgor neu'r panel perthnasol cyn y cyfarfod neu ei ddwyn i sylw Cadeirydd y cyfarfod unwaith y daw'r aelod yn ymwybodol o wrthdaro yn ystod y drafodaeth. Ni chaiff unigolion gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu buddion eu hunain.

5.5.3. Dylai staff hefyd adrodd yn ôl am unrhyw wrthdrawiadau cyn gynted ag sy'n ymarferol i'w rheolwr llinell.

5.5.4. Os bydd gwrthdaro yn codi, neu fod penderfyniad yn cael ei wneud o dan wrthdaro buddion, bydd yn cael ei gofnodi gan Glerc y Pwyllgor perthnasol ac adroddir ar y canlynol yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw:

- Natur a maint y gwrthdaro (gan gynnwys beth yw natur y berthynas rhwng yr aelod â'r busnes, sefydliad, gweithrediad masnachol, unigolyn neu gorff proffesiynol, lle y bo'n briodol);
- crynhoad o'r drafodaeth gysylltiedig; a
- chofnod o'r camau a gymerwyd i reoli'r gwrthdaro.

### 5.6. Derbyn Rhoddion

5.6.1. Gall derbyn rhoddion, adloniant, teithiau a gwasanaethau ar gyfer defnydd personol gan bobl neu gwmnïau sydd yn gwneud busnes gyda'r Brifysgol rwystro gwrthrychedd yr aelod o'r Cyngor, aelodau pwyllgor ac aelodau o staff, a chreu gwrthdaro rhwymedigaethol i'r person neu gwmni, yn groes i'w rhwymedigaeth i'r Brifysgol.

5.6.2. Mae derbyn rhodd wrth gyflawni dyletswyddau swyddogol yn codi mater ymddygiad moesegol os yw derbyn yr anrheg yn gosod yr aelod mewn sefyllfa gwrthdaro buddiannau go iawn neu ymddangosiadol. Yn y cyd-destun hwn, y nodwedd fwyaf amlwg o unrhyw rodd yw ei werth allanol/echblyg. Gellir ystyried bod unrhyw werth uwchlaw'r hyn sy'n sylfaenol yn awgrymu cymhelliad pellach. Y dull mwyaf diogel yw caniatáu derbyn rhoddion sydd wedi'u prisio ar swm sylfaenol yn unig. Rhaid gwrthod derbyn cynigion rhodd eraill. Am gyngor pellach ar dderbyn rhoddion, cyfeiriwch at y weithdrefn 'Derbyn neu Ddarparu Rhoddion a Lletygarwch'.

## 5.7. Cofnod Buddiannau

5.7.1. Bydd pob datganiad a wneir gan aelodau'r Cyngor a'i bwyllgorau, Grŵp Gweithredol y Brifysgol, a staff y Brifysgol yn gyffredinol yn ffurfio rhan o Gofnod Buddiannau canolog y sefydliad, a gedwir yn ddiogel ar system PoblAber. Bydd y Cofnod Buddiannau hefyd yn cynnwys adenillion NIL sydd wedi cael eu gwneud gan staff.

5.7.2. Mae'n orfodol i aelodau'r Cyngor a'i bwyllgorau ddatgan unrhyw fuddion ar ddechrau eu tymor mewn swydd, ac wedi hynny'n flynyddol. Dylai aelodau hefyd adolygu eu datganiadau yn ystod cwrs y flwyddyn yn ôl y gofyn. Bydd fersiwn cryno o'r datganiadau a wnaed gan aelodau'r Cyngor yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Brifysgol gan Glerc y Cyngor.

5.7.3. Mae'n orfodol i brif swyddogion y Brifysgol (Goruchwylwyr Cyllideb Gyfrifol a Phrif Reolwyr Cyllideb) ddatgan unrhyw fuddion yn flynyddol mewn diwyg benodol. Bydd yn orfodol i brif swyddogion newydd a apwyntiwyd gwblhau'r daflen ddatganiad buddiannau ar PoblAber.

## 5.8. Diogelu Data

5.8.1. Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir yn dod o dan egwyddorion Deddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018), a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (UK GDPR). Caiff y data hwn ei ddefnyddio'n unig er mwyn sicrhau bod yr unigolion sy'n dod o dan y polisi yn gweithredu er lles y Brifysgol ac nid ar gyfer unrhyw bwrpas arall.

## 5.9. Arolygu

5.9.1. Bydd y cofnod buddiannau yn cael ei wirio ar hap yn erbyn dyfarnu contractau i gadarnhau effeithiolrwydd y cofnod a'r polisi.

## 5.10. Adolygu'r Polisi

5.10.1. Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn unol â'r adolygiad confodol o'r Gweithdrefnau Ariannol.